

Comisiwn Dŵr Annibynnol

Adroddiad Interim

3 June 2025



Crynodeb Gweithredol

1. Sefydlwyd y Comisiwn Dŵr Annibynnol gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar 23 Hydref 2024. Ei amcan yw darparu argymhellion ar gyfer ‘ailosod’ y sector dŵr yn sylfaenol – i adfer hyder y cyhoedd yn y sector a’r rheoleiddio arno, sicrhau bod camau’n cael eu cymryd i ddenu’r buddsoddiad angenrheidiol i lanhau dyfrffyrdd Cymru a Lloegr, a sefydlu fframwaith a fydd yn ateb y galw am ddŵr yn y dyfodol.
2. Mae Cylch Gorchwyl y Comisiwn yn eang, yn aml-ddimensiwn ac yn fanwl. Mae’n cynnwys rheoli a chynllunio strategol ar gyfer y system ddŵr yn ei chyfanrwydd, rheoleiddio’r diwydiant dŵr, perfformiad a gwydnwch y cwmnïau dŵr a diogelu defnyddwyr. Fel y nodir yn y Cylch Gorchwyl, wrth edrych ar y diwydiant dŵr mae’r Comisiwn wedi cael y dasg o ganolbwyntio ar ddiwygiadau i wella’r model rheoledig wedi’i breifateiddio. Ni fydd yn gwneud argymhellion sy’n effeithio ar Adolygiad Prisiau 2024 ac ni fydd yn gwneud argymhellion sy’n benodol i unrhyw gwmnïau dŵr unigol.¹
3. Does dim un newid syml, sengl, waeth pa mor radicalaidd, a fydd yn cyflawni’r dasg o ‘ailosod’ y sector dŵr yn sylfaenol yn unol ag amcan y llywodraeth. Mae’r sefyllfa bresennol yn deillio o set gymhleth a chysylltiedig o faterion y mae angen mynd i’r afael â nhw yr un pryd.
4. Mae’r adroddiad interim hwn felly yn nodi casgliadau rhagarweiniol y Comisiwn mewn 5 maes allweddol sy’n gysylltiedig â’i gilydd a lle, ar sail ei dystiolaeth a’i ymgysylltu hyd yn hyn, mae angen newid mawr ac uchelgeisiol. Nid yw’r adroddiad hwn yn gynhwysfawr: nid yw nifer o faterion pwysig lle mae’r syniadau yn eu dyddiau cynnar yn cael eu trafod. Bydd y rhain yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad terfynol, ac mae’r Comisiwn yn anelu at gyhoeddi hwnnw cyn y toriadau seneddol dros yr haf. Bydd hwn yn nodi rhagor o gasgliadau ac argymhellion manwl ar draws yr holl Gylch Gorchwyl, a bydd hefyd yn ymdrin ag amseriad y diwygiadau a gynigir a sut i’w rhoi ar waith.
5. Ers lansio’r Comisiwn, rydyn ni wedi ymgysylltu’n helaeth – gan gynnal dros 150 o gyfarfodydd â nifer o randdeiliaid sydd â buddiannau yn y sector dŵr. Mae’r Comisiwn wedi’i galonogi’n fawr gan i ba raddau y mae’r rhanddeiliaid – ar bob ochr i’r drafodaeth – wedi bod yn barod i ymwneud yn adeiladol â’n gwaith. Er bod llawer o safbwyntiau gwahanol a chyndyn, mae yna gonsensws pwerus nad yw’r system bresennol yn gweithio’n dda, a bod angen newid.

¹ Y Comisiwn Dŵr Annibynnol, ‘[Independent commission on the water sector regulatory system: terms of reference](#)’, 2024

6. Mae ein Galwad am Dystiolaeth, a gaeodd ar 23 Ebrill 2025, wedi ennyn mwy na 50,000 o ymatebion, gan ddangos cryfder y teimlad am y materion sy'n wynebu'n system ddŵr. Darperir dadansoddiad cychwynnol o'r ymatebion hyn yn **Atodiad A**. Mae'r Comisiwn yn dal i werthuso'r ymatebion hyn, ochr yn ochr â'r amrediad o dystiolaeth a ddaeth i law trwy'n hymgysylltiad â sefydliadau anllywodraethol amgylcheddol (eNGOs), cwmnïau dŵr, rheoleiddwyr, buddsoddwyr, gwleidyddion, a phartneriaid rhyngwladol, ymhlith eraill. Gan hynny, bydd ein syniadau'n dal i esblygu rhwng nawr a chyhoeddi'r adroddiad terfynol.
7. Y 5 maes a gynhwysir yn yr adroddiad interim hwn yw: i) cyfeiriad a chynlluniau strategol ii) y fframwaith deddfwriaethol, iii) diwygio rheoleiddiol, iv) strwythurau, perchnogaeth, llywodraethiant a rheolaeth y cwmnïau, a v) iechyd y seilwaith a'r asedau.

Cyfeiriad a chynlluniau strategol

Cyfeiriad strategol (Adran 1a)

8. Barn y Comisiwn yw bod angen cyfeiriad strategol cliriach, hirdymor gan y llywodraeth yng Nghymru ac yn Lloegr ar yr hyn sydd ei angen o'r system ddŵr. Mae cydbwyso'r gwahanol bwysau ar ddŵr – gan gynnwys y diwydiant dŵr, amaethyddiaeth, defnydd tir, ynni, trafnidiaeth a datblygu – wrth ddiogelu'n hamgylchedd dŵr a darparu cyflenwad dŵr digonol yr yn pryd yn gofyn am gyfarwyddyd ac arweiniad ynghylch amcanion, blaenoriaethau a chyfaddawdau sy'n gallu cael eu rhoi gan y llywodraeth yn unig.
9. Ar hyn o bryd, mae strategaeth y llywodraeth ar gyfer y sector dŵr wedi'i chyfleu drwy ystod o wahanol ddogfennau, megis Strategaeth Dŵr Cymru (a gyhoeddwyd yn 2015) yng Nghymru a'r Cynllun ar gyfer Dŵr yn Lloegr (a gyflwynwyd am y tro cyntaf yn 2023).² Mae'r dogfennau hyn yn brin o ran blaenoriaethu a chostio clir ar gyfer amcanion y tymor byr a'r tymor hir, ochr yn ochr â ffocws annigonol ar sectorau y tu hwnt i'r diwydiant dŵr.
10. Hefyd, mae canllawiau byrdymor sydd wedi'u targedu at y diwydiant dŵr yn cael eu darparu'n bennaf trwy Ddatganiadau Polisi Strategol (SPS) y Deyrnas Unedig a Chymru i Ofwat, a gyhoeddir bob rhyw bum mlynedd.³ Fel y cyfrwng i gyflwyno strategaeth y llywodraeth ar gyfer y diwydiant dŵr, mae gan yr SPS gyfyngiadau. Mae'n cael ei gyfeirio at Ofwat yn unig – sef rheoleiddiwr economaidd y diwydiant dŵr – ac felly nid yw'n gymwys i'r rheoleiddwyr amgylcheddol yng Nghymru ac yn Lloegr, yr Arolygiaeth Dŵr

² Llywodraeth Cymru, '[Strategaeth Dŵr i Gymru](#)', 2015; Defra, '[Plan for Water: our integrated plan for delivering clean and plentiful water](#)', 2023

³ Llywodraeth Cymru, '[Written Statement: Strategic Priorities and Objectives Statement for Ofwat \(SPS\) \(6 July 2022\) | GOV.WALES](#)', 2022; Defra, '[Strategic policy statement for Ofwat - GOV.UK](#)', 2022

Yfed (DWI), na'r priod systemau dŵr yn ehangach. Lle mae'n gymwys, nid oes ganddo flaenoriaethu clir, targedau mesuradwy ac atebolrwydd.⁴

11. Mae'r Comisiwn wrthi'n ystyried opsiynau i lywodraethau Cymru a'r Deyrnas Unedig osod gweledigaeth a chyfeiriad hirdymor cliriach, mwy cydlynol ar gyfer y system ddŵr. Dylai gosod cynllun strategol o'r fath gynnwys cyfeiriad cliriach ar amcanion, blaenoriaethau a cherrig milltir tuag at gyflawni targedau mwy hirdymor. Lle ceir cyfaddawdau, mae angen i'r llywodraeth roi arweiniad lefel uchel i'r rheoleiddwyr ar sut i gydbwysu'r amcanion.

Cynllunio Systemau Dŵr (Adran 1b)

12. Mae dŵr yng Nghymru a Lloegr yn cynnwys nifer o systemau dŵr rhanbarthol ar wahân. Dim ond y llywodraeth all osod y nodau a'r blaenoriaethau strategol cyffredinol ar gyfer dŵr; ond, mae angen i waith 'cynllunio systemau', sef y broses o droi'r nodau hyn yn fuddsoddiadau a gwelliannau, ddigwydd yn bennaf ar lefel ranbarthol. Dylai gynnwys y gweithredwyr rhanbarthol a lleol sy'n gosod galwadau ar y system ddŵr.
13. Nid gweithgaredd newydd yw 'cynllunio systemau' dŵr. Ar hyn o bryd, yng Nghymru, mae cynllunio'n cael ei wneud yn bennaf ar raddfa genedlaethol, ac yn cael ei ddatblygu gyda rhai rhanddeiliaid allweddol. Yn Lloegr, mae ystod o fecanweithiau cynllunio ar gael ar lefel genedlaethol a rhanbarthol, wedi'u hanelu'n bennaf at y diwydiant dŵr.⁵ Yn y ddau achos, fodd bynnag, mae'r Comisiwn wedi clywed mai gwan yw'r ymgysylltu â'r gweithredwyr rhanbarthol a lleol allweddol a bod y llais lleol wedi'i golli yn y system.
14. Barn y Comisiwn yw y dylai'r broses o gynllunio systemau yn Lloegr gael ei chyflawni'n bennaf ar lefel ranbarthol er mwyn caniatáu i ofynion lleol ar y cyflenwad dŵr a'r amgylchedd dŵr gael eu hystyried yn fwy effeithiol, osgoi gwneud penderfyniadau digyswllt, a datgloi buddion i'r ddwy ochr. Ar hyn o bryd yn Lloegr, mae'r gwaith 'cynllunio systemau' yn cael ei wneud gan Asiantaeth yr Amgylchedd (EA) trwy amryw o brosesau sy'n gymhleth, yn ddrud, heb fod yn dryloyw ac yn canolbwyntio'n drwm ar y diwydiant dŵr.
15. Ym marn y Comisiwn, yn achos Lloegr mae yna achos cryf y dylai'r swyddogaethau cynllunio systemau presennol gael eu cyflawni yn y dyfodol drwy drefniadau cynllunio systemau dŵr rhanbarthol gwell a chryfach sy'n cynnwys yr holl sectorau sy'n cael effaith ar ansawdd a maint y dŵr mewn system ddŵr ranbarthol, gan gynnwys yr awdurdodau lleol. Bydd hyn yn caniatáu dull mwy cynhwysfawr o fynd i'r afael â'r gwahanol ffynonellau llygredd sy'n niweidio'r amgylchedd dŵr. Mae'r Comisiwn yn edrych ar ystod o opsiynau ar gyfer y ffordd orau i drefnu trefniadau o'r fath. Fe allen nhw, er

⁴ Defra, '[Summary of responses and government response](#)', 2022

⁵ Ofwat, '[Price Reviews](#)' (wedi'i weld 22 Mai 2025)

enghraifft, gynnwys pwyllgorau o fewn corff rheoleiddio presennol neu gyrff mwy annibynnol. Dylai fod cysylltiad clir rhyngddyn nhw a llais lleol a dylen nhw dynnu ar bartneriaethau lleol sy'n seiliedig ar ddalgylchoedd. Mae'n hanfodol bod gan drefniadau systemau dŵr ranbarthol o'r fath awdurdod gwirioneddol mewn perthynas â buddsoddi yn y diwydiant dŵr ac adnoddau sy'n gysylltiedig â dŵr sydd wedi'u cyfeirio at sectorau eraill.

16. Mae'r Comisiwn wrthi hefyd yn ystyried ar ba raddfa briodol y gellid gwneud y gwaith o gynllunio systemau dŵr rhanbarthol yn Lloegr. Rydyn ni'n credu ar hyn o bryd mai'r peth mwyaf ymarferol fyddai i'r cynlluniau hyn gael eu mapio i ffiniau hydrolegol, fel basnau afonydd. Er hynny, mae'r Comisiwn hefyd yn ystyried sut i roi rôl gref a dylanwadol i'r awdurdodau lleol. Mae ymgysylltu effeithiol, agos â llywodraeth leol a democratiaeth leol yn hanfodol er mwyn sicrhau mwy o gydlyniant, o gofio cyfrifoldebau'r awdurdodau lleol dros gynllunio a datblygu economaidd. Gall hefyd gryfhau perchnogaeth leol wrth reoli dŵr, gan ddod â phenderfyniadau ar ddŵr yn nes yn y oen draw at y bobl sy'n byw ac yn gweithio yno.
17. Wrth asesu'r ffordd orau o symud y system cynllunio dŵr ranbarthol yn ei blaen, cyn yr adroddiad terfynol, mae'r Comisiwn wrthi'n tynnu ar enghreifftiau o ddulliau cynllunio effeithiol mewn mannau eraill, megis y rhai ar gyfer ynni a llifogydd a diwygiadau Llywodraeth Ei Fawrhydi ar gyfer llywodraeth leol yn Lloegr.
18. Yng Nghymru, mae'r Comisiwn yn cydnabod y bydd newidiadau eraill yn y swyddogaeth cynllunio systemau yn fwy priodol, gan gydnabod y boblogaeth lai, y raddfa ddaearyddol a'r drefn sefydliadol wahanol. Mae'r Comisiwn wrthi'n ystyried a allai un trefniant cynllunio systemau weithredu ar draws Cymru gyfan. Er mwyn bod yn llwyddiannus, byddai angen i hyn fod yn wirioneddol draws-sectoraidd, gan gynnwys pawb sy'n rhyngweithio â'r amgylchedd dŵr ac yn effeithio arno, yn ogystal â grwpiau lleol sydd â gwybodaeth fanwl am eu dalgylchoedd afonydd, eu dyfrhaenau a'r arfordiroedd cysylltiedig.
19. Ym marn y Comisiwn, fel rhan o'r newidiadau hyn yng Nghymru ac yn Lloegr, mae'n rhaid symleiddio a rhesymoli prosesau cynllunio busnes presennol y diwydiant dŵr, a hynny er mwyn gwella tryloywder ac yn y pen draw atebolrwydd am gyflawni canlyniadau. Nid yw'r cynlluniau a'r prosesau cyfredol yn darparu'n effeithiol ar gyfer cynlluniau mwy hirdymor.
20. Bydd y Comisiwn yn gwneud argymhellion manwl ynglŷn â'r cynigion hyn ar gyfeiriad strategol a chynllunio systemau yn ei adroddiad terfynol.

Fframwaith deddfwriaethol (Adran 2, Tudalennau 31-40)

21. Mae fframwaith deddfwriaethol cryf yn bwysig er mwyn sicrhau bod gwaith rheoli dŵr yn bodloni'r gofynion a ddisgwyllir gan y gymdeithas. Mae'r gofynion hyn wedi cynyddu ac wedi dod yn fwy cymhleth dros amser. Maent yn cynnwys ansawdd a diogelwch ein dŵr yfed a dibynadwyedd y ddarpariaeth, ansawdd amgylcheddol ein hafonydd a'n harfordiroedd, amddiffyn defnyddwyr dŵr a chyflawni twf economaidd cynaliadwy.
22. Mae newidiadau deddfwriaethol olynol, a thameidiog yn aml, yng Nghymru ac yn Lloegr dros y degawdau diwethaf wedi arwain at fframwaith deddfwriaethol cymhleth iawn ar gyfer dŵr a chynnydd yn y gofynion cyfreithiol ynglŷn â chyflenwi dŵr ac ansawdd dŵr. Ym marn y Comisiwn, yn unol â barn adroddiad Dan Corry ('Delivering economic growth and nature recovery: an independent review of Defra's regulatory landscape', 2 Ebrill 2025), mae gwir angen adolygu a rhesymoli llawer o elfennau allweddol o'r fframwaith deddfwriaethol.⁶
23. Bydd rhesymoli yn gofyn am ymarfer mawr, ymhell y tu hwnt i rychwant y Comisiwn hwn. Er hynny, mae'r Comisiwn wrthi'n ystyried nifer o amcanion allweddol y gellid eu gosod ar gyfer adolygiad o'r fath. Un dasg bwysig fydd cael gwared ar ofynion sy'n gorgyffwrdd ac yn wrthgyferbyniol. Dylai adolygiad hefyd anelu at ddiweddaru'r ddeddfwriaeth yn unol â'r wyddoniaeth gyfredol ac ystyried yr arferion gorau mewn awdurdodaethau eraill. Dylai'r adolygiad gynnwys Rheoliadau'r Amgylchedd Dŵr (Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2017 (WFD) ac ystyried a ddylid ehangu eu hamcanion. Dylid hoelio sylw'n benodol ar y cwestiwn a ddylid cynnwys amcanion iechyd cyhoeddus yn y fframwaith ar gyfer ardaloedd penodol o gofio pwysigrwydd cynyddol defnyddio dŵr at hamdden. Dylai'r Rheoliadau Trin Dŵr Gwastraff Trefol (Cymru a Lloegr) 1994 hefyd fod yn flaenoriaeth i'w hadolygu.
24. Mae'r Comisiwn hefyd yn cydnabod bod diffyg hyblygrwydd yn y fframwaith deddfwriaethol yn debygol o fod yn cyfyngu ar arloesedd yn y sector dŵr, gan gynnwys defnyddio 'atebion sy'n seiliedig ar natur', a chanlyniadau twf. Mae'r Comisiwn yn edrych ar ffyrdd i fynd i'r afael â hyn, gan gynnwys argymhelliad Adroddiad Corry y dylid sefydlu fframwaith cyfreithiol neu fframwaith polisi i ategu'r broses o arfer 'disgresiwn cyfyngedig' gan reoleiddwyr yng Nghymru a Lloegr. Y bwriad yn hyn o beth fyddai helpu i gyflawni ystod o amcanion amgylcheddol ac economaidd ac amcanion polisi cyhoeddus eraill.

⁶ Independent Review of Defra's regulatory landscape, '[Delivering economic growth and nature recovery: an independent review of Defra's regulatory landscape - GOV.UK](#)', 2025

Diwygio Rheoleiddiol (Adran 3)

25. Mae rheoleiddio effeithiol yn hanfodol at amddiffyn budd y cyhoedd mewn system lle mae cwmnïau preifat yn cynhyrchu nwyddau cyhoeddus hanfodol fel gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff a lle maent yn fonopoli rhanbarthol i bob pwrpas.
26. Mae system reoleiddio bresennol y diwydiant dŵr yng Nghymru a Lloegr, sef rheoleiddio ansawdd a maint y dŵr a rheoleiddio prisiau a gwasanaethau ill dau, wedi colli ymddiriedaeth y cyhoedd i raddau helaeth.⁷ Mewn sawl ffordd, nid yw'n cyflawni'r canlyniadau a ddymunir ychwaith. Nid yw hyn yn cynnwys y DWI sydd, ar y cyfan, yn hynod effeithiol ac wedi goruchwyllo gwaith Cymru a Lloegr yn cynnal safonau dŵr yfed o'r radd flaenaf yn y byd.⁸
27. O ran rheoleiddio economaidd, mae'r Comisiwn wedi clywed pryderon nad yw dull 'un ateb sy'n addas i bawb' Ofwat (sy'n asesu effeithlonrwydd a chostau cwmnïau yn bennaf yn erbyn meincnodau diwydiant cyfan sy'n deillio i raddau helaeth o fodelu econometrig) yn cymryd yr amodau a'r heriau penodol sy'n wynebu'r cwmnïau i ystyriaeth yn ddigonol.⁹ Bernir hefyd fod gwaith rheoleiddio Ofwat yn ddiffygiol o ran goruchwyliaeth ddigonol dros yr hyn sy'n cael ei gyflawni a'r peiriannu ariannol gan rai cwmnïau. Ym marn llawer o fuddsoddwyr a chwmnïau, mae rheoleiddio economaidd wedi dod yn rhy ymosodol ac anwadal.¹⁰
28. Mewn system o gwmnïau monopoli rhanbarthol, mae'r Comisiwn yn cydnabod yr angen am fframwaith meincnodi gwrthrychol, ar draws y diwydiant cyfan, i amddiffyn cwsmeriaid rhag camddefnyddio pŵer monopoli mewn perthynas â phrisiau a lefelau gwasanaeth ac i osod cymhellion ar gyfer gwella effeithlonrwydd. Er hynny, mae yna gyfyngiadau o ran pa mor gywir y gall fframwaith meincnodi ac offer econometrig o'r fath fod ac i ba raddau y gellir dibynnu ar y rhain. Mae hyn yn arbennig o wir am y diwydiant dŵr lle mae cwmnïau dŵr yn wynebu heriau gwahanol iawn (er enghraifft, daearyddiaeth, hydroleg, demograffeg a hanes) a lle mae'r amcanion polisi cyhoeddus wedi dod yn fwy cymhleth a heriol.
29. Barn y Comisiwn yw bod angen ail-gydbwyso'r dull presennol o reoleiddio economaidd. Dylai hyn olygu datblygu swyddogaeth 'oruchwyllo' gref sy'n benodol i'r cwmni o fewn y rheoleiddiwr economaidd ochr yn ochr â'i swyddogaeth meincnodi econometrig. Un o gyfrifoldebau'r swyddogaeth oruchwyllo fyddai datblygu dealltwriaeth gref ar lefel uchel, wedi'i seilio ar

⁷ Dadansoddiad o'r ymatebion i'r Alwad am Dystiolaeth, 'Rhoddodd 93% o'r ymatebwyr sgôr wael neu wael iawn i berfformiad y fframwaith rheoleiddio dŵr', 2025

⁸ Mynegai Perfformiad Amgylcheddol, '[2024 Environmental Performance Index - Unsafe drinking water](#)' (wedi'i weld 22 Mai 2025)

⁹ Ymgysylltiad y cwmnïau dŵr â'r Comisiwn

¹⁰ Ymgysylltiad buddsoddwyr a'r cwmnïau dŵr â'r Comisiwn

farn, o bob cwmni unigol ac o'r ymgysylltu â phob cwmni unigol. Byddai hyn yn galluogi'r rheoleiddiwr i ddeall ei ragolygon, cefnogi camau cadarnhaol gan y cwmni ac ymyrryd yn gynnar i fynd i'r afael â gweithredoedd sy'n groes i fudd y cyhoedd. Dylai gwaith y rheoleiddiwr economaidd o osod prisiau ac amcanion gael ei seilio'n gyfartal ar feincnodi ledled y diwydiant a dyfarniadau ar y cwmni penodol gan gymryd i ystyriaeth a yw'r cwmni wedi gwella neu wedi dirywio o'i gymharu â'i berfformiad blaenorol, yn ogystal ag o'i gymharu â meincnod ledled y diwydiant.

30. Nid mater syml o ddarparu mwy o ddata i'r rheoleiddiwr economaidd ar gyfer gwaith monitro agosach yw adeiladu swyddogaeth oruchwylio gref ar hyd y llinellau hyn. Yn wir, dylai anelu at symleiddio ymwneud y rheoleiddwyr â'r cwmnïau. Bydd yn gofyn newid arwyddocaol yn niwylliant, capasiti a gallu'r rheoleiddiwr economaidd ac yn ei lywodraethiant.¹¹ Yn benodol, bydd angen arbenigedd cryf a safonol mewn peirianeg ac mewn cyllid. Bydd hefyd yn gofyn bod gan y rheoleiddiwr economaidd y pwerau a'r offer, yn ogystal â'r ddealltwriaeth, i ymyrryd pan na fydd cwmnïau'n ymddwyn er budd y cyhoedd ac, i'r gwrthwyneb, i'w cefnogi pan fydd hynny er budd y cyhoedd. Yn hyn o beth, mae'r Comisiwn yn gweld achos cryf dros roi offer i'r rheoleiddiwr i sicrhau bod perchnogion cwmnïau dŵr yn cefnogi budd y cyhoedd. Gallai hyn gynnwys ystyried a oes ar Ofwat angen unrhyw offer ychwanegol i gyfarwyddo cwmnïau ac ymyrryd mewn newidiadau perchnogaeth yn y cwmnïau dŵr.
31. Gan droi at reoleiddio amgylcheddol, mae'r Comisiwn yn cydnabod pryderon arwyddocaol y cyhoedd nad yw'r fframwaith rheoleiddio amgylcheddol yn cyflawni'r canlyniadau yr hoffem eu gweld. Mae'r Comisiwn wedi clywed bod gallu'r rheoleiddwyr amgylcheddol yng Nghymru a Lloegr (Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ac Asiantaeth yr Amgylchedd (EA), yn y drefn honno) i orfodi cydymffurfiaeth â safonau wedi'i gyfaddawdu yn sgil heriau mewn capasiti a gallu.¹² Mae rhywfaint o gamau eisoes ar y gweill i fynd i'r afael â'r rhain. Mae'r Comisiwn yn ystyried, ymhlith pethau eraill, sut y gellir cryfhau a moderneiddio'r gwaith rheoleiddio amgylcheddol, gan gynnwys manteisio ar dechnolegau monitro a thrwyddedu digidol er mwyn gwella gallu ac effeithlonrwydd y rheoleiddiwr. Yn ychwanegol, dylai'r cynigion ar gynllunio systemau ac adolygu'r ddeddfwriaeth a nodir yn yr adroddiad interim hwn ganiatáu i'r rheoleiddiwr amgylcheddol hoelio mwy o sylw ar fonitro a gorfodi, a chefnogi diwylliant sy'n llai amharod i gymryd risg lle bo'n briodol.
32. Mae'r Comisiwn wedi clywed pryderon bod cwsmeriaid yn fwyfwy anfodlon â'r ddarpariaeth gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff gan eu cwmnïau dŵr a

¹¹ Er enghraifft, mae adroddiadau blynyddol Ofwat yn dangos bod gan Ofwat Brif Beiriannydd ar y Bwrdd cyn 2005.

¹² Senedd Cymru, [Cyfoeth Naturiol Cymru – Gwaith Craffu Blynyddol 2022-23](#), 2023; Senedd y Deyrnas Unedig, [‘Water quality in rivers - Environmental Audit Committee’](#), 2022

bod hyn yn cael ei chwyddo gan bryderon am fforddiadwyedd, gyda biliau i godi £31 y flwyddyn ar gyfartaledd, bob blwyddyn, cyn chwyddiant, o 2024-25 hyd at 2029/30.¹³ Trwy ei gynigion ehangach ar gyfer diwygiadau, mae'r Comisiwn yn edrych ar sut y gall y system ddŵr gyflawni'n well y canlyniadau y mae ar y defnyddwyr eu heisiau, yn enwedig canlyniadau amgylcheddol ac iechyd y cyhoedd yn ogystal â dibynadwyedd y ddarpariaeth gwasanaethau. O gofio codiadau diweddar mewn biliau dŵr, a chodiadau sy'n debygol yn y dyfodol. Mae'r Comisiwn yn croesawu'r pwerau newydd sydd wedi'u cymryd gan y Llywodraeth i ganiatáu diwygio cynlluniau fforddiadwyedd, gan gynnwys tariffau cymdeithasol, ac ymrwymiad y llywodraeth i gymryd camau i fynd i'r afael â thlodi dŵr ar draws Lloegr. Mae'r Comisiwn hefyd yn edrych ar opsiynau mwy penodol i gryfhau amddiffyniadau i gwsmeriaid a chynlluniau gwneud iawn i gwsmeriaid. Mae'r Comisiwn yn cydnabod yr angen am lais a hyrwyddwr cryf i'r cwsmeriaid, sef rôl sy'n cael ei chyflawni ar hyn o bryd gan y Cyngor Defnyddwyr Dŵr (CCW). Mae'n archwilio opsiynau i gryfhau llais y cwsmer, gan gynnwys edrych ar brofiadau sectorau eraill.

33. Yn olaf, un mater mawr sy'n cael ei ystyried gan y Comisiwn yw strwythur y sefydliadau rheoleiddio a'r ffordd y mae'r rheoleiddwyr yn rhyngweithio. Mae amcanion craidd y rheoleiddwyr hyn wedi ehangu'n arwyddocaol dros amser, tra bo dyletswyddau cyfreithiol penodol hefyd wedi cynyddu. Mae'r ehangu hwn wedi arwain at orgyffwrdd a bylchau rhwng cyfrifoldebau'r gwahanol reoleiddwyr, at densiwn rhwng amcanion rheoleiddio ac at brosesau sy'n rhy gymhleth a drud.
34. Mae'r Comisiwn yn credu bod angen diwygio'r ffordd y mae gwahanol amcanion polisi cyhoeddus yn cael eu dwyn at ei gilydd ac yn rhyngweithio yn y fframwaith rheoleiddio presennol. Mae'r opsiynau ar gyfer sut y gellid gwneud hyn yn amrywio o resymoli priod ddyletswyddau a chylchoedd gorchwyl y rheoleiddwyr, a phrosesau mwy effeithiol ar gyfer cysoni amcanion, i opsiynau mwy sylfaenol, strwythurol ar gyfer integreiddio mandadau a swyddogaethau rheoleiddio.
35. Dyma faes cymhleth iawn ac mae'r Comisiwn wrthi'n ystyried yr holl opsiynau a'u costau a'u buddion. Bydd yn dod yn ôl at y mater hynod bwysig hwn gydag argymhellion yn ei adroddiad terfynol. Gallai unrhyw newidiadau gynnwys dulliau gwahanol yng Nghymru a Lloegr, gan gymryd y cyd-destun cenedlaethol i ystyriaeth.

¹³ Ofwat, [Final determinations for the 2024 price review – Sector summary](#), mewn prisiau 2022-23.

Strwythurau, Perchnogaeth, Llywodraethiant a Rheolaeth Cwmnïau (Adran 4)

36. Rheoleiddio priodol a chryf yw un o'r amodau angenrheidiol i sicrhau bod cwmnïau preifat yn darparu nwyddau cyhoeddus. Ond mae'r Comisiwn hefyd yn ystyried sut mae strwythurau perchnogaeth, llywodraethiant a rheolaeth y cwmnïau wedi effeithio ar berfformiad a gwytnwch y cwmnïau a sut y gallai newidiadau yn y meysydd hyn atgyfnerthu'r broses o gyflenwi nwyddau cyhoeddus.
37. O ran strwythurau perchnogaeth, ers i'r diwydiant dŵr yng Nghymru a Lloegr gael ei breifateiddio ym 1989, cafwyd newidiadau o bwys ym mherchnogaeth cwmnïau dŵr, gan gynnwys tuedd tuag at reolaeth 'breifat' – h.y. cwmnïau nad ydynt wedi'u rhestru'n gyhoeddus. Heddiw, mae 7 o'r 10 cwmni dŵr a charthffosiaeth yng Nghymru a Lloegr mewn dwylo preifat.¹⁴ Mae modelau perchnogaeth y cwmnïau preifat heb eu rhestru yn amrywio o gronfeydd ecwiti preifat sy'n cynrychioli ystod eang o fuddsoddwyr, i berchnogaeth uniongyrchol gan fuddsoddwyr sefydliadol a chwmnïau seilwaith rhyngwladol – neu ryw gyfuniad o'r rhain. Mae un cwmni, Dŵr Cymru Welsh Water, yn perthyn i gwmni cyfyngedig trwy warant ac nid yw er elw.¹⁵
38. Mae'r Comisiwn yn dal i ystyried i ba raddau y mae'r gwahaniaeth rhwng modelau perchnogaeth wedi bod yn ffactor wrth bennu perfformiad a gwytnwch cwmni. Doedd Cylch Gorchwyl y llywodraeth ddim yn cynnwys prynu cwmnïau dŵr neu eu hasedau gan y sector cyhoeddus. Mae Ysgrifennydd Gwladol Defra wedi amlinellu mewn datganiadau cyhoeddus y byddai hyn yn rhy ddrud a chymhleth ac nad oes prawf o reidrwydd fod hyn yn sicrhau canlyniadau cyhoeddus gwell. O fewn rhychwant ei Gylch Gorchwyl mae'r Comisiwn wrthi'n gwerthuso ystod o fodelau perchnogaeth. Mae'r Comisiwn hefyd yn ystyried yr hyn y gellir ei ddysgu o brofiad gwledydd eraill.
39. Barn bresennol y Comisiwn yw, er bod yna wahaniaethau pwysig rhwng modelau perchnogaeth wedi'u rhestru a heb eu rhestru, mai penderfynydd pwysicaf perfformiad a gwytnwch yw 'model busnes' y buddsoddwyr sylfaenol – h.y. y risgiau y maent yn barod i'w cario, y cyfnod a'r ffordd y maent yn anelu at gymryd eu henillion a'u parodrwydd a'u gallu i gynyddu cyfalaf er mwyn ariannu buddsoddiadau newydd.

¹⁴ Roedd 10 WASC adeg preifateiddio. Erbyn hyn mae 11 WASC yng Nghymru a Lloegr ond mae Hafren Dyfrdwy yn is-gwmni i Severn Trent Plc ac felly fe'i hystyrir yn rhan o fodel perchnogaeth Severn Trent at ddibenion y bennod hon; Severn Trent, "[Our shares](#)" (wedi'i weld 28 Mai 2025); Pennon Group Plc, "[Water and wastewater](#)" (wedi'i weld 28 Mai 2025); United Utilities, "[Investor guide](#)" (wedi'i weld 28 Mai 2025)

¹⁵ Dŵr Cymru Welsh Water, "[Amdanon Ni](#)" (wedi'i weld 22 Mai 2025)

40. Mae ar y diwydiant dŵr angen gorwel hirdymor a bod yn sefydlog dros amser. Fel cyfleustod monopoli rheoledig, mae'r Comisiwn yn credu, er y gallai fod eithriadau (er enghraifft, yn achos cwmnïau sydd angen eu gwedddnewid yn ddybryd), y dylai'r diwydiant dŵr a'i fframwaith rheoleiddio anelu at ddenu buddsoddwyr sy'n chwilio am fuddsoddiad sydd â risg isel ac enillion isel ac sy'n sefydlog dros amser.
41. Ar gyfer ei adroddiad terfynol mae'r Comisiwn wrthi'n ystyried sut i adfer sefydlogrwydd a rhagweladwyedd y system reoleiddio sy'n angenrheidiol i ddenu buddsoddwyr risg isel, enillion isel. Nid yw'r drefn bresennol yn cael ei hystyried yn sefydlog ac yn ddigon rhagweladwy, rhywbeth sy'n cael ei adlewyrchu yn israddiad Moody's ar gyfundrefn reoleiddio'r Deyrnas Unedig ar gyfer dŵr o Aaa i Aa yn 2018, ac i A yn 2024.¹⁶
42. Mae'r Comisiwn yn credu y dylai cyflwyno cynllun strategol hirdymor ar lefel y llywodraeth, fel y nodir uchod, helpu i fynd i'r afael â phryderon ynghylch sefydlogrwydd hirdymor.
43. Mae'r Comisiwn yn cydnabod hefyd nad yw anwadalrwydd mawr o ran enillion yn ffafriol ar gyfer denu buddsoddwyr hirdymor, risg isel ac enillion isel. Mae wrthi'n ystyried sut y gallai mecanweithiau rheoleiddio gael eu datblygu i leihau'r amrywiadau mewn enillion, gan ostwng y risgiau tu uchaf a'r risgiau tu isaf i fuddsoddwyr. Fel y nodwyd uchod, mae'r Comisiwn yn ystyried hefyd a oes ar y rheoleiddiwr economaidd angen rhagor o offer – megis pwerau i gyfarwyddo ac ymyrryd – er mwyn sicrhau nad yw perchnogion cwmnïau dŵr sy'n mynd ar ôl eu buddiannau preifat yn gweithredu'n groes i'r budd cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys rheolaeth ariannol y cwmnïau.
44. Mae'r Comisiwn wedi ystyried a fyddai newidiadau pellach mewn llywodraethiant corfforaethol yn briodol. O gofio'r newidiadau sydd ar y gweill ar hyn o bryd yn Erthyglau Cymdeithasu'r cwmnïau, ymwneud â'r cwsmeriaid a'r gofynion presennol ar fyrddau, nid yw'n bwriadu mynd ymhellach ar hyn o bryd. Er hynny, mae'n edrych ymhellach ar sut mae uwch reolwyr yn chwarae rôl hanfodol wrth lunio diwylliant, perfformiad ac atebolrwydd cwmni. Rydym yn edrych ymhellach ar ddyletswyddau'r rheolwyr a'r hyn y gellir ei ddysgu gan sectorau eraill, megis cyllid, gan ystyried yr angen i sicrhau bod y diwydiant dŵr yn gallu denu a chadw rheolwyr o safon, yn enwedig o gofio'r heriau y mae'r diwydiant yn eu hwynebu erbyn hyn.

¹⁶ Moody's, '[Moody's downgrade of regulated water utilities](#)', 2024; Moody's, '[Regulated Water Utilities – UK: Ofwat's draft determination increases sector risk](#)', tudalen 4, 2024.

Iechyd Seilwaith ac Asedau (Adran 5)

45. Mae seilwaith gwydn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod gwasanaethau fel dŵr yfed diogel a rheolaeth effeithiol ar ddŵr gwastraff yn cael eu darparu'n barhaus. Mae angen asesu gwytnwch trwy lens hirdymor, yn ogystal ag edrych ar ymarferoldeb byrdymor yr asedau. Does dim modd cyfyngu gwytnwch i iechyd asedau. Mae hefyd yn golygu asesu a mynd i'r afael ag afreidedd angenrheidiol a phwyntiau critigol mewn systemau lle mae methiant yn bosibl.
46. Mae'r Comisiwn yn cydnabod bod asesu iechyd a gwytnwch asedau yn y diwydiant dŵr yn anos nag mewn llawer o sectorau eraill, yn enwedig o gofio natur danddaearol llawer o'r gronfa asedau. Er hynny, casgliad rhagarweiniol y Comisiwn yw nad oes dealltwriaeth ddigonol o iechyd asedau'r sector dŵr a gwytnwch cyffredinol y system ar hyn o bryd.
47. Nid pob ased sydd wedi'i fapio.¹⁷ Mae cyllid ar gyfer adnewyddu a chynnal a chadw cyfalaf gan Ofwat yn dal yn cael ei seilio'n bennaf ar gadw cyfalaf blaenorol a digwyddedd methiant asedau yn hytrach nag asesiad penodol o gyflwr asedau. Nid yw adnewyddu'r diwydiant dŵr wedi'i seilio ar asesiad prognostig, mwy hirdymor sy'n ystyried straen tebygol yn y dyfodol ar asedau megis newid hinsawdd a thwf y boblogaeth. Does dim safonau gwytnwch cyson, ar draws y diwydiant, i asesu asedau'r diwydiant dŵr yn eu herbyn.
48. Mae'r Comisiwn yn gweld achos cryf dros osod fframwaith a safonau gwytnwch seilwaith blaengar ar lefel genedlaethol i Gymru a Lloegr yn eu tro, gyda set gyson o dargedau'n cael ei defnyddio ar draws pob cwmni. Gallai hyn gynnwys gofynion ar y cwmnïau i wneud asesiadau prognostig sy'n edrych tua'r dyfodol o iechyd asedau a darparu adroddiadau i'r rheoleiddwyr. Dylai asesiadau o'r fath lywio cynlluniau a chyllid y cwmnïau mewn adolygiadau prisiau. Gallai ymagwedd fwy goruchwyliol at reoleiddio ategu hyn, gan gynnwys sicrhau bod y rheoleiddiwr yn cynyddu ei allu mewn peirianeg ac yn datblygu dealltwriaeth fanwl o gronfa asedau'r cwmni a'i anghenion buddsoddi.
49. Mae'r Comisiwn hefyd yn edrych ar y materion cysylltiedig sy'n ymwneud â chadwyn gyflenwi'r diwydiant dŵr, yn fwyaf arbennig mor bwysig yw arddel golwg hirdymor ar fuddsoddi yn y diwydiant dŵr, a hynny er mwyn i'r gadwyn gyflenwi allu cynllunio ac er mwyn sicrhau bod gan y gadwyn gyflenwi gapasiti. Bydd y Comisiwn yn mynd i'r afael â hyn ymhellach yn ei adroddiad terfynol.

¹⁷ Ymgysylltiad y Comisiwn â chwmnïau dŵr

Credyd delwedd

Tudalen glawr– © Araminta via Pixabay